



Ein cyf/Our ref MA-P-LG-8170-16

22 Rhagfyr 2016

Annwyl Aelodau

CADARNHAU'R FFLIW ADAR MEWN ADERYN GWYLLT YN SIR GÂR

Rwyf eisoes wedi ysgrifennu atoch am fy mhenderfyniad i ddatgan bod Cymru gyfan yn Barth Atal Ffliw'r Adar sy'n golygu bod yn rhaid cadw dofednod ac adar caeth o dan do ac imi wedyn gyhoeddi gwaharddiad dros dro ar grynhoi dofednod.

Rwyf am eich hysbysu nawr bod Prif Swyddog Milfeddygol Cymru wedi cadarnhau bod straen H5N8 Pathogenig lawn Ffliw'r Adar wedi'i gael mewn chwiwell (math o hwyaden wyllt) yn Llanelli, Sir Gaerfyrddin.

Dyma'r un straen o'r clefyd a gafwyd ar fferm dyrchw yn Lincolnshire ddydd Gwener (16 Rhagfyr) ac mewn adar domestig, gwyllt a chaeth yn Ewrop, y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica.

Cafwyd hyd i'r chwiwell yn farw a chafodd profion eu cynnal arni. Cafwyd cadarnhad bore yma bod straen H5N8 Pathogenig lawn feirws fflw'r adar arni.

Mae cael hyd i'r clefyd mewn aderyn gwyllt yn dod yn sgil cyhoeddi ar 6 Rhagfyr bod Cymru gyfan yn Barth Atal, sy'n golygu bod pawb sy'n cadw dofednod ac adar caeth eraill yn gorfod cadw eu hadar dan do neu gymryd camau priodol i'w cadw nhw ac adar gwyllt ar wahân a'u hamddiffyn rhag adar gwyllt.

Yn gynharach yr wythnos hon, cymerwyd camau pellach i amddiffyn dofednod ac adar caeth trwy gyhoeddi gwaharddiad dros dro ar grynhoi dofednod.

Mae bioddiogelwch yn fater na ddylem gyfaddawdu arno byth. Hyd yn oed os ydy'r adar dan do, mae'r perygl o'u heintio'n dal yn fyw a dylai ceidwaid dofednod ac adar caeth eraill wneud popeth yn eu gallu i'w rhwystro rhag dod i gysylltiad ag adar gwyllt. Dylid osgoi symud dofednod a dylid wastad diheintio dillad ac offer.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid oes adroddiadau wedi dod i'n clyw bod pobl wedi cael eu heintio gan straen H5N8 ac ychydig iawn o berygl sydd i iechyd pobl. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cadarnhau hefyd ei bod yn sâff bwyta cig dofednod fel tyrcwn, gwyddau ac ieir.

Rwy'n pwysu ar geidwaid dofednod, gan gynnwys y rheini sydd â llai na 50 o adar, i roi manylion eu heidiau i'r [Gofrestr Dofednod](#). Drwy wneud, byddwn yn gallu cysylltu â nhw ar unwaith pe bai'r clefyd yn taro er mwyn iddyn nhw allu cymryd y camau angenrheidiol yn syth i ddiogelu'u hadar."

Cewch fwy o wybodaeth, gan gynnwys y mesurau sy'n gysylltiedig â Pharth Atal Ffliw'r Adar, ar wefan Llywodraeth Cymru [yma](#).

A handwritten signature in black ink that reads "Lesley". The signature is written in a cursive, flowing style with a large, sweeping flourish at the end.

Lesley Griffiths AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs